Nodyn Datblygu Arfer 1 Un Llais Cymru

Amserlen Flynyddol o Weithredoedd Ariannol

Canllaw syml ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref bach i ganolig

Gweithred	Pwrpas	Cyfnod Amser	Amserlen fras
1. Cyllidebau & Praesept **(Model Reoliad Ariannol 3 Un Llais Cymru)**			
1.1 Paratoi Cyllideb Ddrafft i'w hystyried a'i chymeradwyo gan y Cyngor gan gynnwys asesiad o weddillion.	Gosod sail i'r Cyngor benderfynu ar y praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod ac i fodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1992.	Dylai'r broses gychwyn ym misoedd Hydref/Tachwedd ac fel arfer dylai'r Cyngor gymeradwyo'r gyllideb erbyn diwedd Ionawr man pellaf neu mewn pryd i fodloni unrhyw derfyn amser a osodwyd gan y Cyngor (Bwrdeistref) Sir ar gyfer cyflwyno'r praesept.	Hydref

Dyddiad Cyhoeddi Mawrth 2024 **Dyddiad Adolygu Mawrth 2025**

Gweithred	Pwrpas	Cyfnod Amser	Amserlen fras
		(Dylai cyllidebau ystyried hefyd y cronfeydd a gedwir yn y Gweddillion Cyffredinol a Chlustnodedig. Dylid cadw rhai gweddillion ond dylid meddwl sut allant helpu cadw'r praesept i lawr. Darllenwch bennod 22 y Canllaw i Ymarferwyr.)	
1.2 Maint y praesept a gyflwynir i'r Cyngor (Bwrdeistref) Sir i'w gymeradwyo unwaith y cafodd y gyllideb ei chymeradwyo.	Sicrhau bod lefel y praesept yn briodol i gefnogi'r gyllideb a gymeradwywyd.	Fel arfer erbyn diwedd Ionawr neu erbyn y dyddiad olaf a roddwyd gan y Cyngor (Bwrdeistref) Sir.	Ionawr
1.3 Hysbysu'r Cyngor (Bwrdeistref) Sir am y praesept angenrheidiol.	Sicrhau bod y Cyngor (Bwrdeistref) Sir yn cael gwybod beth yw'r swm i'w godi trwy dreth y cyngor ac a delir i'r Cyngor Cymuned neu Dref yn y flwyddyn ariannol newydd.	Bydd hyn yn amrywio yn ôl y dyddiad cyflwyno a roddwyd gan y Cyngor (Bwrdeistref) Sir. Rhaid cyhoeddi praesept cyn 1 Mawrth yn y flwyddyn ariannol cyn yr un y caiff ei gyhoeddi ar ei gyfer. Nid yw'n annilys os caiff ei gyhoeddi ar neu wedi'r dyddiad	Erbyn 31 Ionawr

Gweithred	Pwrpas	Cyfnod Amser	Amserlen fras
		hwnnw, ond dylech osgoi hynny. Mae'n creu problemau i'r awdurdod bilio sy'n gorfod danfon biliau Treth y Cyngor allan.	

Gweithred	Pwrpas	Cyfnod Amser	Amserlen fras
2. Monitro'r Gyllideb **(Model Reoliad Ariannol 4 Un Llais Cymru)**			
2.1 Paratoi adroddiadau monitro'r gyllideb rheolaidd yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod y Cyngor yn cael gwybodaeth lawn am lefelau incwm a gwariant wedi'u cysylltu â phenawdau cyllideb a gymeradwywyd. Dylai	Sicrhau bod y Cyngor yn cael gwybodaeth reolaidd am y sefyllfa ariannol bresennol a'r alldro disgwyliedig yn ystod y flwyddyn fel y gall wneud penderfyniadau os gwelwyd amrywiadau arwyddocaol rhwng y ddarpariaeth yn y	Awgrymir y dylid cyflwyno adroddiadau bob chwarter o leiaf.	Chwarterol

	adroddiadau gymharu gwariant (ac incwm) yn ôl y gyllideb, a dylid esbonio unrhyw amrywiadau arwyddocaol.	gyllideb a lefelau incwm/gwariant.		
2.2	Paratoi cysoniadau banc rheolaidd yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod y Cyngor yn ymwybodol o'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf gan gyfrif am incwm a gwariant na chyfrifwyd ar eu cyfer eto mewn datganiadau banc misol a sicrhau bod camgymeriadau neu faterion penodol yn cael eu darganfod yn gynnar e.e. (camgymeriadau banc, sieciau'n mynd ar goll ac ati).	Gwirio cyflawnder a manwl-gywirdeb cofnodion cyfrifo'r Cyngor. Mae'r sefyllfa ariannol bresennol fel y'i cofnodwyd yn y cofnod cyfrifo a dylid ei hadrodd i'r Cyngor neu'r Pwyllgor dynodedig fel rhan o'r trefniadau ariannol a chyllidebol.	Awgrymir y dylid cyflawni'r rhain yn fisol ac eithrio ar gyfer Cynghorau a chanddynt gyllidebau bychain iawn lle y gallai bob deufis fod yn fwy priodol.	Misol

Gweithred	Pwrpas	Cyfnod Amser	Amserlen fras
3. Archwiliad **(Model Reoliad Ariannol 2 Un Llais Cymru)**			
3.1 Derbyn ffurflen y Datganiad Blynyddol oddi wrth yr Archwilwyr Allanol a gwirio'n drylwyr yr wybodaeth y mae angen ichi ei darparu i gefnogi'r ffurflen datganiad rydych wedi'i llenwi.	Gofalu eich bod yn paratoi'n iawn ar gyfer yr archwiliad blynyddol.	Pan dderbyniwch y ffurflen, mae'n bwysig eich bod yn gwirio fod gennych yr holl ddogfennaeth ategol sydd ei hangen arnoch.	Ebrill (efallai cyn hynny)
3.2 Cau, mantoli a chysoni'r llyfr arian, diweddaru'r atodlen	Sicrhau bod cyfrif priodol am yr holl incwm a		CGAPh ar ôl 31 Mawrth

	asedau a rhwymedigaethau a ffeilio'r holl ddogfennaeth ategol mewn trefn resymegol (e.e. anfonebau, llyfrau derbynebau, amcan brisiau a dderbyniwyd, cofnodion arian parod, cofnodion cyflogres).	gwariant ac y cedwir trywydd archwilio at ddibenion archwilio ac er mwyn i unrhyw aelod o'r cyhoedd ymarfer eu hawl i archwilio'r cyfrifon.	Mae hwn yn anghenraid ariannol, a bydd angen darparu pob cofnod ar gyfer yr Archwilydd Mewnol.	
3.3	Trefnwch fod yr Archwilydd Mewnol yn derbyn y cofnodion cyfrifo ac yn cwblhau'r archwiliad mewn da bryd er mwyn ichi drefnu fod y Cyngor yn ymateb i ac yn llenwi adran Lywodraethiant y Datganiad Blynyddol a chymeradwyo'r cyfrifon erbyn 30 Mehefin man pellaf (Dylai aelodau dderbyn adroddiad yr Archwilydd Mewnol o leiaf 3 diwrnod llawn cyn y cyfarfod y caiff ei ystyried ynddo).	Darparu sicrwydd rhesymol fod y rheolyddion ariannol yn effeithiol ac y cafodd unrhyw gamgymeriadau neu hepgoriadau eu hamlygu ar gyfer sylw'r Cyngor.	Dylai'r Archwilydd Mewnol fod yn annibynnol a gwrthrychol a meddu ar y profiad angenrheidiol i gyflawni'r archwiliad. Dylai dderbyn llythyr ymrwymo pan gaiff ei b/phenodi gan y Cyngor ynghyd â rhaglen flynyddol o ddyletswyddau. Dylai ddarparu adroddiad i'w ystyried gan y Cyngor, i'w ddosbarthu i aelodau o leiaf 3 diwrnod llawn cyn y cyfarfod y caiff ei ystyried ynddo. Gall yr Archwilydd Mewnol ddarparu adroddiad ar wahân neu ddefnyddio proforma'r Datganiad Blynyddol i esbonio'r gwaith a gyflawnwyd a'i g/chanfyddiadau. Ar gyfer Cynghorau mwy gallai fod yn briodol i'r archwilydd mewnol gynnal ymweliad yn ystod y flwyddyn. Bydd hynny'n helpu'r archwilydd mewnol i ddeall eich prosesau ac adnabod	CGAPh ar ôl 31 Mawrth

		unrhyw gamau posib y gallai fod angen ichi eu cymryd cyn diwedd y flwyddyn.	
3.4 Bydd y SAC yn ardystio'r datganiadau cyfrifo a bydd y Cyngor yn cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol erbyn 30 Mehefin man pellaf a rhaid danfon y datganiad wedi'i lenwi gyda'r wybodaeth ategol y gofynnwyd amdani at yr Archwilwyr Allanol erbyn dyddiad y byddant yn ei nodi.	Mae cydymffurfio â'r dyddiadau targed yn ofynnol yn ôl Rheoliadau Archwilio a Chyfrifon (Cymru) 2014.	Mae'n hollbwysig y cedwir at y dyddiadau targed hyn onid ydych wedi cytuno dyddiad cyflwyno arall gyda'r Archwilwyr Allanol.	Mehefin
3.5 Arddangos hysbysiad hawliau archwilio'r cyhoedd yn seiliedig ar ofynion a nodir gan yr Archwilwyr Allanol (gofalwch eich bod yn llwytho'r hysbysiad ar wefan y Cyngor). Darperir	Mae cydymffurfio yn ofynnol yn ôl Rheoliadau Archwilio a Chyfrifon (Cymru) 2014. Gofalwch eu bod ar gael i'w harchwilio yn ystod y cyfnod amser a nodwyd.	Dylid cadw at yr amserlenni a nodir gan yr Archwilwyr Allanol onid ydych wedi cytuno dyddiad gwahanol gyda'r Archwilwyr Allanol. Os ydych yn defnyddio dyddiadau eraill, cyfrifoldeb y Cyngor fydd gofalu fod y dyddiadau hyn yn bodloni'r holl ofynion angenrheidiol. Argymhellir eich bod yn defnyddio'r dyddiadau a awgrymir.	Mehefin (Bydd Archwilio Cymru yn darparu'r union ddyddiadau)

	templed yr hysbysiad gan yr Archwilwyr Allanol.			
3.6	Dylech ymateb yn brydlon a chlir i unrhyw gwestiynau gan yr Archwilwyr Allanol. Dylech ddanfon gwybodaeth ategol atynt i gefnogi unrhyw atebion a roddwch.	Profi'r wybodaeth a ddarparwyd.	Efallai y bydd archwilwyr yn gofyn ichi am wybodaeth ychwanegol yn ystod y broses archwilio. Gallent ddod oddi wrth aelod iau o'r tîm archwilio sy'n gwneud rhywfaint o waith sylfaenol a/neu yn dilyn craffu mwy dwys gan uwch aelod o'r tîm.	Haf i mewn i'r Hydref
3.7	Wedi iddynt gwblhau'r archwiliad allanol, bydd yr archwilwyr yn danfon y Datganiad Blynyddol atoch ynghyd â'u tystysgrif archwilio fydd yn archwiliad diamod neu amodol. Efallai y byddant hefyd yn gwneud argymhellion at sylw'r Cyngor. Rhaid i'r SAC ofalu fod hyn oll yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w ystyried ganddynt. Bydd yr Archwilydd Allanol yn	Mae cydymffurfio yn ofynnol yn ôl Rheoliadau Archwilio a Chyfrifon (Cymru) 2014.	Mae'n hollbwysig fod y Cyngor yn ystyried adroddiad yr Archwilwyr Allanol hyd yn oed os yw'n cynnig barn ddiamod heb unrhyw argymhellion.	Erbyn 30 Medi

darparu canllawiau ar gyhoeddi adroddiad yr archwiliad cyflawn. Dylid llwytho copi o'r datganiad llawn ar wefan y Cyngor.			

Rhai awgrymiadau pwysig:

- Dechreuwch feddwl am wariant y flwyddyn nesaf yn gynnar – holwch aelodau am ba lefel o wariant mae Aelodau ei heisiau; beth yw'r heriau y byddwch yn eu hwynebu'r flwyddyn nesaf; ewch ag ef drwy'r pwyllgorau.

- Lluniwch offeryn syml i ddangos y gwariant yn ôl y gyllideb. Bydd matrics yn dangos penawdau'r gyllideb, gwariant hyd yn hyn, a'r gwariant diwedd blwyddyn disgwyliedig yn helpu aelodau i weld y darlun cyffredinol - a chadw'r gwariant o fewn y cyfyngiadau. Bydd y math yma o fformat yn nodwedd gyffredin ar becynnau cyfrifo pwrpasol.

- Meddyliwch am enwau eich codau cost – rhowch rif iddyn nhw. Gwnewch bethau'n rhwydd i'r aelodau!

- Mae'r Datganiad Blynyddol yn gofyn nifer o gwestiynau llywodraethiant. Allwch chi ateb pob un o'r cwestiynau hyn? Os na allwch, rhowch y broses ar waith cyn diwedd y flwyddyn. Peidiwch aros tan fis Ebrill cyn gwneud rhywbeth. Edrychwch ar ffurflen y llynedd os na chewch un eleni tan fis Ebrill.

- Trefnwch eich archwiliad mewnol ddigon ymlaen llaw.

- Dylech adolygu eich cynllun archwilio bob blwyddyn. Gall Un Llais Cymru helpu Cynghorau ar fformat.

- Mae'r Datganiad Blynyddol yn gofyn i'r archwilydd mewnol gynnal rhai gwiriadau. Gofalwch fod gennych gymaint ag y gallwch o wybodaeth yn barod ymlaen llaw i helpu symleiddio a chyflymu'r broses. Peidiwch aros nes bod yr archwilydd yn dod i mewn i chwilio am y Rheoliadau Ariannol neu'r Gofrestr Risg!

- Gofalwch fod y ffigyrau yn adio i fyny fel y dylent. Byddwch yn ofalus wrth 'dalgrynnu' ffigyrau. Gallai punt allan naill ffordd neu'r llall fod yn arwyddocaol.

- Gofalwch eich bod yn gwneud y pethau bychain wrth lenwi'r Datganiad Blynyddol – dyddiwch ef, llofnodwch ef, rhowch rif y cofnod pan gafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor arno. Gofalwch fod enw'r Cyngor ar y brig! Mae'n hawdd iawn anghofio pethau felly. Fel arfer mae'r Datganiad Blynyddol yn cynnwys rhestr o bethau defnyddiol i'w gwirio ar y diwedd. Darllenwch y canllawiau sy'n cefnogi ffurflen y Datganiad Blynyddol.

- Wrth arddangos gwybodaeth ar hysbysfyrddau neu gyhoeddi ar-lein, gofalwch eich bod yn cyhoeddi popeth sydd ei angen. Er enghraifft, cyhoeddwch y Datganiad llawn pan mae angen, gan gynnwys unrhyw farnau archwilio.

- Gwiriwch y geiriad ar eich hysbysiadau yn ofalus.

- A oes gan y Clerc a staff eraill gontract cyflogaeth cyfredol? Mae hwn yn fater llywodraethiant pwysig all effeithio hefyd ar gostau staff.

- Astudiwch y Canllaw i Ymarferwyr. Cyhoeddir y Canllaw ar y cyd gan Un Llais Cymru a'r Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol. Mae'n amlinellu arferion cyfrifo priodol statudol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru a chanllawiau ar drefniadau llywodraethu priodol.

- Gwnewch ddefnydd o'r pecyn Cyllid & Llywodraethiant ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref. Mae'n cefnogi Cynghorau cymuned a thref i adolygu eu trefniadau rheolaeth ariannol, llywodraethiant, ac atebolrwydd; pa mor effeithiol yw'r trefniadau hyn ac ystyried sut ellid eu gwella.

- Gofalwch fod y Cyngor yn cyflawni'r ymrwymiadau sydd yn y cynllun hyfforddiant statudol.